John Bryan, 1770–1856
Gweinidog (W)

Mr. Bryan, y gân sydd gu – hedd i'n mysg!
Rhyw ddawn mawr gwnewch feddu;
Byw y lles yw achub llu,
Dawn gynhes, a Duw'n gwenu.

Robin Ddu

Ychydig o ffeithiau sydd ar gael am fywyd cynnar John Bryan. Fe'i ganwyd yn Llanfyllin, Trefaldwyn, ac er bod ei rieni'n fyw cafodd ei fagu am flynyddoedd gan ei ewythr John Rogers, brawd ei fam, a oedd yn fasnachwr yn y dref honno. Derbyniodd beth addysg elfennol ond ar farwolaeth ei ewythr aeth i fyw i Amwythig ac yna i Gorwen a Llanycil. Erbyn 1798 yr oedd wedi cyrraedd Wrecsam ac yn gweithio mewn siop dilledydd. Yn y cyfnod hwn teimlai anniddigrwydd dwfn yn ei galon ynghylch ei gyflwr ysbrydol, a digwyddiad allweddol yn ei hanes oedd symud yn Hydref 1798 i weithio mewn siop groser yn Eastgate Street, Caer, lle roedd y perchnogion, sef pedair merch Richard Williams, Gresford, yn Wesleaid o argyhoeddiad. Y Rhagfyr dilynol fe gafodd dröedigaeth bur ddramatig yng nghartref ei gyflogwyr, a hynny ym mherfeddion nos.

Teimlodd yr angen i gysylltu â chredinwyr eraill a dechreuodd fynychu eglwys y Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg yn y dref. Ond rhoddodd gŵr o'r enw Mr Morley fenthyg holl weithiau John Wesley iddo, ac wrth eu darllen fe'i trowyd oddi wrth egwyddorion Calfiniaeth ac ymunodd â'r Wesleaid yng nghapel yr Octagon ym 1799. Y flwyddyn ddilynol traddododd ei bregeth gyntaf ar noson waith mewn tŷ yn Rowton. Datblygodd yn bregethwr effeithiol a lwyddodd i ennill llawer i gredu, ond weithiau gallai fod yn rhy lym ei dafod.

Ym 1801 derbyniwyd John Bryan yn weinidog Wesleaidd yng Nghymru yn y gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd yn Leeds, ac fe'i penodwyd yng nghylchdaith newydd Rhuthun. Ef oedd un o

weinidogion cyntaf y Wesleaid yng Nghymru. Dylid cofio mai ym 1800 y cychwynnodd y genhadaeth Wesleaidd yng Nghymru pan anfonwyd dau genhadwr, Owen Davies a John Hughes, i weithio ar Ynys Môn. Bu John Bryan yn eu cynorthwyo, ac ystod y blynyddoedd dilynol yr oedd ef ymhlith criw cynyddol o bregethwyr a deithiodd o amgylch gogledd Cymru yn sefydlu achosion Wesleaidd. Erbyn 1805 yr oedd 2,532 o aelodau ganddynt yng Nghymru. Cynyddodd hynny i 5,139 mewn 16 o gylchdeithiau ym 1815, a chaent eu gwasanaethu gan 45 o weinidogion. Priododd â Mary Griffith, Cae Eithin, Rhuthun, ym 1805.

Ym 1815 fe'i penodwyd gan y gynhadledd flynyddol i weithio ymhlith y Cymry ym Manceinion a bu adnewyddiad grymus yno o dan ei weinidogaeth. Gweithiodd wedyn yn Rochdale, yr Eglwys Wen (Amwythig), Burslem (Surrey), Epworth (Swydd Linclon) a Leeds. Bu yn Leeds am saith mlynedd gan ei sefydlu ei hun fel groser a masnachydd te, ond oherwydd salwch ei wraig penderfynodd symud i awyrgylch mwy iachus Caernarfon ym 1831, ac yno bu hi farw, ym 1835. Parhaodd ef i gadw siop ac i bregethu, ac ym 1840 aeth ar daith bregethu i dde Cymru gan gyrraedd cyn belled â Merthyr Tudful a Chaerdydd. Cyfieithodd rai o emynau John a Charles Wesley i'r Gymraeg, a hefyd draethodau Owen Davies. Bu farw yng Nghaernarfon ym 1856 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys wrth y goeden gam ym mynwent eglwys Llanbeblig.